**EITEM AR YR AGENDA: 13**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Rhagfyr 2006**

**YMGYNGHORIAD AR REOLIADAU LWFANSAU'R AELODAU**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

**Penderfyniad a geisir**

**1.** I ystyried ymateb i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007.

**Cefndir**

**2.** Yn dilyn ymgynghoriad cynharach yn 2005, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus reoliadau drafft at ddiben ymgynghoriad pellach ar 26 Hydref. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 21 Rhagfyr. Mae copi o'r llythyr ymgynghoriad a rheoliadau drafft ar gael yn: new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/locgovcurrcons/?lang=en

new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/locgovcurrcons/?lang=cy

**Cefndir** *(parhad)*

**3.** Mae'r Gweinidog wedi gollwng yr awgrymiad y dylai bod amod ar y taliad o ail lwfans cyfrifoldeb arbennig i gynghorydd sir sy'n gwasanaethu ar Awdurdod Tân ac yn dal safle o gyfrifoldeb gyda'r ddau gorff. Mae hyn yn adlewyrchu'r agwedd gymerwyd gan yr Awdurdod Tân wrth ymateb i'r ymgynghoriad yn 2005.

**4.** Mae'r Gweinidog yn argymell rhoi'r pŵer i'r Awdurdodau Tân i dalu lwfans cyfetholediadol. Byddai hyn yn berthnasol, er enghraifft, i aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Byddai lefelau uchaf o'r lwfans yn gyfartaledd o'r fath lwfansau osodir gan y 6 chyngor cyfansoddol.

**5.** Mae'r amodau ar daliadau lwfans gofal lle mae cynghorydd yn derbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig sy'n uwch na swm penodol yn cael ei ddiddymu. Mae hefyd rhai man newidiadau i Reoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 i gywiro gwallau drafftio.

**Cyngor**

**6.** Mae'r argymhellion diweddaraf yn gyffredinol yn cael eu croesawu ac fe ddylid cydnabod hyn yn ein hymateb. Dyma'r ddwy ardal allai achosi pryder yn botensial:

**6.1** nid wnaethpwyd unrhyw gynydd ar y newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol i ganiatáu i lwfansau'r awdurdod tân fod yn bensiynadwy. Efallai bydd modd i'r Mesur Llywodraeth Leol gywiro hyn;

**Cyngor** *(parhad)*

**6.2** mae'r lefelau uchaf ar gyfer llawer o lwfansau y cynghorau i'w gosod gan Banel Tâl Annibynnol. Nid oes gwrthwynebiad i hynny. Fodd bynnag, ar nifer o bwyntiau, mae'r rheoliadau drafft yn awgrymu y gallai lefelau uchaf gwahanol gael eu gosod ar gyfer gwahanol gyrff. Nid yw'n ymddangos fod cyfiawnhad i hyn mewn perthynas â lwfansau megis lwfans gofal, lwfans teithio a chynhaliaeth a lwfans cyfetholiadol.

**Argymhelliad**

**7.** Fod yr Awdurdod yn ystyried termau ei ymateb i'r rheoliadau drafft ac yn cyflwyno sylwadau ar y llinellau amlinellwyd ym mharagraff 6.